

Beth yw'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad?

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn rhan o'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Mae'r Gwasanaeth yn darparu ymyrraeth a darpariaeth ar gyfer ystod eang o ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae'r Gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â phlant, teuluoedd, ysgolion, seicolegwyr addysg a phlant ac asiantaethau eraill i gefnogi disgyblion trwy bob math o ymyriadau a lleoliadau addysg.

Nod y Gwasanaeth yw codi safonau ac ehangu mynediad at addysg i bob disgybl sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol. Y bwriad yw:

- Rhoi cyfle cyfartal i ddefnyddwyr gwasanaeth;
- Sicrhau bod pob disgybl cyn belled ag sy'n bosib yn derbyn addysg yn eu cymunedau eu hunain;
- Cydweithio â rhieni, disgyblion a phartneriaid proffesiynol;
- Cynnig gwasanaeth ymatebol, o ansawdd uchel sy'n cael ei

Beth mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn ei wneud?

Nod y Gwasanaeth yw sicrhau bod anghenion plant a phobl ifainc yn cael eu diwallu. Gallwn ni gynnig y canlynol:

- Cyngor ac arweiniad i athrawon a gweithwyr eraill ar ystod o strategaethau ymddygiadol;
- Cyngori unigol i ddisgyblion;
- Cychwyn a monitro rhaglenni ymddygiadol unigol ar gyfer disgyblion;
- Trefnu strategaethau ymyrryd mewn grŵp, e.e. amser cylch, cylch ffrindiau a.y.b.;
- Hwyluso dull aml-asiantaeth tuag at ddatrys problemau ymddygiad;
- Darparu deunyddiau i athrawon i ddatblygu ystod o strategaethau ymddygiad;
- Cyngor ar lunio Cynlluniau Addysg Unigol a Chynllun Ymddygiad Unigol;
- Rhoi hyfforddiant i athrawon a staff eraill ar ystod o faterion ymddygiadol;
- Cyngor a chymorth ar leoliad amgen.

Sut mae Ysgolion yn cael mynediad at y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad?

- Drwy atgyfeiriad uniongyrchol i'r Cydlynnydd Cynnal Ymddygiad;
- Drwy atgyfeiriad i Reolwyr y Gwasanaeth;
- Trwy baneli adolygu disgyblion;
- Fel arfer dim ond pan fydd ysgolion wedi dod i ddiwedd eu gweithdrefnau eu hunain ar gyfer delio â materion Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol y bydd y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn cael ei gynnwys;
- Dylai fod o leiaf un ond os oes modd dau Gynllun Addysg Unigol/Cynllun Ymddygiad Unigol wedi cael eu gweithredu neu mae cynllun cynnal bugeiliol mewn lle;
- Dylai cais fod wedi cael ei wneud am gyngor yn flaenrol fel rhan o'r cam Gweithredu Ysgol o Gôd Ymarfer AAA Cymru;
- Bydd y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn chwarae rhan yn syth os bydd digwyddiad difrifol untro sy'n gwneud ymyrraeth yn flaenoriaeth i gadw lleoedd yn yr ysgol;
- Rhaid cael caniatâd rhiant i atgyfeirio.

